

DATGANIAD TECHNEGOL RHANBARTHOL AR GYFER
GWEITHFANNAU CYFANREDOL RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU A DE CYMRU - ADOLYGIAD 2IL

DATGANIAD O GYDWEITHREDU IS-RANBARTHOL AR
GYFER IS-RANBARTH DINAS ABERTAWE

MAI 2021

Rhagarweiniad

Mae Polisi Cynllunio Cymru 11 (paragraff 5.14.10) yn nodi bod sicrhau cyflenwad cynaliadwy o fwynau yn fater strategol sy'n chwarae rôl ategol sylfaenol o ran cefnogi datblygiadau nad ydynt yn ymwneud â mwynau. Dylai pob awdurdod cynllunio lleol sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad priodol at ddiwallu anghenion lleol, rhanbarthol a'r DU am fwynau sylfaenol sy'n adlewyrchu natur a graddau'r adnoddau yn yr ardal a'u defnydd gorau a mwyaf priodol, yn amodol ar ystyriaethau amgylcheddol a chynllunio eraill perthnasol. Ar gyfer agregau, dylid gwneud hyn o dan aegis Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru, a'u rôl yw darparu trosolwg rhanbarthol o'r cyflenwad a'r galw a thrwy'r fframwaith a ddarperir gan y Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau.

Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru – Ail Adolygiad (Datganiad Technegol Rhanbarthol 2) (Medi 2020) yn nodi'r dosraniadau angenrheidiol ac unrhyw ddyraniadau angenrheidiol ar lefel Awdurdod Cynllunio Lleol ond hefyd ar lefel is-ranbarthol. Mae hyn er mwyn caniatáu i ardaloedd is-ranbarthol wneud addasiadau mewn dosraniadau o fewn yr is-ranbarthau hynny os yw ymchwiliad manylach gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dangos y gellir cyfiawnhau addasiadau o'r fath.

I'r perwyl hwnnw, mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Ddatganiadau o Gydweithredu Is-ranbarthol gael eu paratoi, ar y cyd, gan bob Awdurdod Cynllunio Lleol cyfansoddol o fewn pob is-ranbarth Datganiad Technegol Rhanbarthol (fel y'i diffinnir gan Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol) fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi pob Cynllun Datblygu Lleol neu Gynllun Datblygu Strategol. Unwaith y cytunir arno, bydd Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol yn parhau i fod ar waith nes iddo gael ei ddisodli gan ofynion adolygiadau o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn y dyfodol, neu fod gwybodaeth newydd yn cael ei chyflwyno sy'n cyfiawnhau newid.

Y ddogfen hon yw'r Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol ar gyfer Is-ranbarth Dinas Abertawe sy'n cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Dinas a Sir Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin (ar gyfer craig fathredig).

Dosraniadau a Dyraniadau Datganiad Technegol Rhanbarthol 2

Mae'r tabl isod yn nodi dosraniadau a dyraniadau'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer craig fathredig fel y nodir yn Natganiad Technegol Rhanbarthol 2 ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol yn is-ranbarth Dinas Abertawe.

Awdurdod Cynllunio Lleol	Dosraniad blynyddol newydd ar gyfer craig fathredig (mt)	Cyfanswm y dosraniad sy'n ofynnol dros 25 mlynedd.	Cronfeydd wrth gefn presennol a ganiateir ar ddiwedd 2016 mewn mt	Isafswm dyraniad sydd ei angen i fodloni'r ddarpariaeth ofynnol (mt)	Cronfeydd wrth gefn ychwanegol ar safleoedd segur, 2016 (mt)
Sir Gaerfyrddin	1.102	27.556	59.900	0.000	13.82
Abertawe	0.305	7.636	0.000	7.636	0
Castell-nedd Port Talbot	0.305	7.636	16.480	0.000	0

Ar y sail hon mae gan Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot ddigon o gronfeydd wrth gefn a ganiateir ar safleoedd presennol i fodloni eu dosraniad felly nid oes angen unrhyw ddyraniadau pellach o fewn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Nid oes gan Abertawe unrhyw gronfeydd wrth gefn sy'n

bodoli eisoes ac felly nodir bod angen dyrannu o leiaf 7.636 miliwn tunnell i fodloni ei dosraniad hyd at 2041.

Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn nodi y bydd pob Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol, yn ddiofyn, yn cadarnhau bod pob Awdurdod Cynllunio Lleol cyfansoddol o fewn is-ranbarth Datganiad Technegol Rhanbarthol penodol yn derbyn y dosraniadau unigol ar gyfer agregau ar gyfer ardaloedd eu Hawdurdod unigol, fel y nodir yn y tabl uchod, ac felly y bydd gofynion y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer yr is-ranbarth hwnnw yn ei gyfanrwydd yn cael eu bodloni (o leiaf).

Fodd bynnag, mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn cydnabod y gall Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol, mewn amgylchiadau eithriadol, nodi patrwm cyflenwi amgen sy'n cyflawni gofynion Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer yr is-ranbarth penodol hwnnw mewn ffordd wahanol. Gall amgylchiadau o'r fath godi *naill ai* pan na all un neu fwy o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn yr is-ranbarth fodloni gofynion sylfaenol eu dosraniadau a nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol *neu* lle nodir patrwm cyflenwi amgen, cyraeddadwy a mwy cynaliadwy drwy gydweithio rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol dan sylw.

Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn nodi'r ystyriaethau y bydd angen iddynt fod yn berthnasol, o dan amgylchiadau o'r fath, fel a ganlyn:

1. Anallu i fodloni dosraniadau Datganiad Technegol Rhanbarthol: Er mwyn dangos anallu i fodloni dosraniadau Datganiad Technegol Rhanbarthol, byddai angen i Awdurdod Cynllunio Lleol ddangos naill ai nad oes ganddo unrhyw (neu gyflenwad annigonol o) adnoddau agregau ymarferol o'r math sy'n ofynnol gan y Datganiad Technegol Rhanbarthol a/neu nad oes diddordeb gan y diwydiant mwynau mewn datblygu adnoddau o'r fath yn yr ardal. *Ni* fydd yn ddigonol dangos nad oes gan yr ardal chwareli presennol neu dim cynhyrchiant diweddar, na bod adnoddau amgen a/neu gronfeydd wrth gefn a ganiateir yn bodoli o fewn Awdurdod Cynllunio Lleol arall.

2. Patrwm amgen o gyflenwi: Pan gynigir patrwm cyflenwi amgen, bydd hyn yn golygu trosglwyddo rhywfaint neu'r cyfan o ddosraniad y Datganiad Technegol Rhanbarthol o un Awdurdod Cynllunio Lleol i un neu fwy o Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill o fewn yr un is-ranbarth, er mwyn gwneud cynnydd cyfatebol yn y ddarpariaeth o fewn yr awdurdodau hynny, fel sy'n ofynnol gan Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1. Bydd angen i'r awdurdodau sy'n derbyn gynyddu eu dosraniadau (a, lle bo angen, dyraniadau), er mwyn sicrhau, *o leiaf*, bod y gofynion cyffredinol ar gyfer cyflenwad parhaus o fewn yr is-ranbarth hwnnw, fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol, yn cael eu bodloni (yn rhifiadol ac o ran math 22 o agreg). Fel rheol, ni fydd yn briodol trosglwyddo dosraniadau yn unig i Awdurdod Cynllunio Lleol sydd â digon o gronfeydd wrth gefn presennol i amsugno'r dosraniad yn rhifyddol, heb gyfeirio at yr ystyriaeth ychwanegol o gapasiti cynhyrchol.

Nid yw'n ofynnol i Abertawe na Chastell-nedd Port Talbot wneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer tywod a graean o'r tir. Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Sir Gaerfyrddin weithio gydag Is-ranbarth Gorllewin Cymru mewn perthynas â thywod a graean o'r tir.

Asesu

Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn cydnabod bod gan Abertawe ddwysedd poblogaeth uchel ond dim chwareli na chloddfeydd gweithredol, gan ddibynnu yn hytrach ar Sir Gaerfyrddin gyfagos am y rhan fwyaf o'i chyflenwadau calchfaen, ar Gastell-nedd Port Talbot am gyflenwadau o agregau arwyneb ffyrdd, ac ar ffynonellau a garthir o'r môr ac a gaiff eu glanio yng Nglanfa Abertawe ar gyfer tywod adeiladu.

Mae gan Abertawe adnoddau cynhenid o Galchfaen Carbonifferaidd ond mae'r rhain bron yn gyfan gwbl o fewn dynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol – ym Mhenrhyn Gŵyr. Felly, mae cyfleoedd realistig ar gyfer datblygu adnoddau yn Abertawe yn ymwneud â thywodfaen Gwerth Cerrig Caboledig uchel yn unig sydd, ar hyn o bryd, yn cael ei gyflenwi'n bennaf gan Gastell-nedd Port Talbot. Mae Map Diogelu Mwynau Cymru yn nodi'r ardaloedd o dywodfaen Gwerth Cerrig Caboledig uchel ym mhob Awdurdod Cynllunio Lleol.

Dim ond o Sir Gaerfyrddin y cyflenwir calchfaen, ac mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn dadlau bod angen iddi gadw ei dosraniad yn llawn, gyda chydbwysedd y dosraniadau (ar gyfer tywodfaen) yn cael ei rannu rhwng Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r ffigurau a ddangosir yn Natganiad Technegol Rhanbarthol 2 ar gyfer y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol hynny'n cymryd rhaniad cyfartal rhyngddynt. Os yw'n well cael cydbwysedd gwahanol, byddai angen i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny gytuno ar hyn fel rhan o'u Datganiad Cydweithredu Is-ranbarthol.

Casgliad

Sir Gaerfyrddin sy'n darparu'r unig ffynhonnell realistig o agregau calchfaen o fewn yr is-ranbarth ac felly mae parhad o'r cyflenwad hanesyddol yn briodol, gan gydnabod bod y safleoedd yn Sir Gaerfyrddin eisoes yn ffynhonnell gyflenwi ar gyfer yr is-ranbarth.

Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn ceisio rhannu'r dosraniad HSA yn gyfartal rhwng Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe er mwyn darparu cydbwysedd tecach o gronfeydd wrth gefn yn agosach at brif ffynhonnell y galw. Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn caniatáu cydbwysedd gwahanol ar yr amod bod yr ystyriaethau a nodir yn Natganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn cael eu cymhwyso.

Er mwyn dangos anallu i fodloni dosraniadau Datganiad Technegol Rhanbarthol, byddai angen i Awdurdod Cynllunio Lleol ddangos naill ai nad oes ganddo unrhyw (neu gyflenwad annigonol o) adnoddau agregau ymarferol o'r math sy'n ofynnol gan y Datganiad Technegol Rhanbarthol a/neu nad oes diddordeb gan y diwydiant mwynau mewn datblygu adnoddau o'r fath yn yr ardal. Ar hyn o bryd, nid yw Abertawe'n gallu dangos hynny a'r prawf priodol ar gyfer hynny fydd adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol a fydd yn dechrau ym mis Medi 2022 ac yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2025/dechrau 2026. Mae mwy na digon o gronfeydd wrth gefn yng Nghastell-nedd Port Talbot i ymgymryd â'r dosraniad ar y cyd o fewn y cyfnod hwn heb arwain at dan ddarpariaeth a symud i ffwrdd o'r dosraniad cyffredinol dros 25 mlynedd ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Rhagwelir y byddai Castell-nedd Port Talbot yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r cyflenwad yn rhan gyntaf y cyfnod o 25 mlynedd Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 a bydd Abertawe'n ceisio ymgymryd â'r llwyth cyflenwi ar gyfer ail ran cyfnod 12 mlynedd Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 yn dilyn yr Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol. Hefyd, mae Polisi RP12 o Gynllun Datblygu Lleol Abertawe yn caniatáu datblygu mwynau, yn amodol ar fodloni sawl maen prawf. Felly, os oes gan y diwydiant unrhyw gynigion i gyflwyno safleoedd yn Abertawe i fodloni dyraniad Datganiad Technegol Rhanbarthol 2 gall wneud hynny yn y cyfnod hyd nes y caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei adolygu.

Felly, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn Ninas-ranbarth Abertawe yn cytuno i dderbyn eu dosraniadau fel y nodir yn Natganiad Technegol Rhanbarthol 2.